TAR CYNRADD

Teitl yr Aseiniad:

Rhan 1:

Adfyfyrdod beirniadol ar fy nghynnydd wrth gynllunio, paratoi ac addysgu gwersi sy'n ymgorffori egwyddorion pedagogaidd penodol.

Rhan 2:

Nodi un o'r egwyddorion pedagogaidd hyn fel maes ar gyfer datblygu a chyfiawnhau camau nesaf eich datblygiad.

Modiwl:

Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgeg: Arwain y Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?

Cod y modiwl:

ECAD6008

Enw'r Myfyriwr:	MISS KRISTIA HARRHY
Rhif Myfyriwr:	1102048
Dyddiad Cyflwyno:	03/01/2021
Dyddiad Cau:	04/01/2021

Rhan 1 – Templedi Profiadau Proffesiynol

Templed Profiad Proffesiynol 1:	**Ffocws ar wers Mathemateg (Cymharu Brawddegau)**
Safon Addysgeg	**Asesu ar gyfer dysgu**
Beth wnaethoch chi a pham?	Wrth ddechrau fy nghyfnod PAP1 Bloc 1 fel athro dan hyfforddiant, roedd yn bwysig imi ymgorffori i strategaethau'r ysgol, yn enwedig y strategaeth o gynllunio ac adfyfyrio'n effeithiol ar wersi. Dilynodd fy mentor dosbarth y dechneg Asesu ar gyfer Dysgu o bodau i fyny/bodau lawr er mwyn asesu dealltwriaeth y dosbarth gallu cymysg. Penderfynais fabwysiadu'r dechneg yma yn fy addysgu fy hun, a daeth yn amlwg bod y strategaeth yma wedi'i hen wreiddio i'r dosbarth. Drwy fabwysiadu'r dechneg AagD yma, llwyddais asesu lefel dealltwriaeth y dosbarth yn gyflym, gan weld a oeddent yn deall beth oedd angen iddynt wneud yn ystod y wers fathemateg dan sylw - roedd hyn yn fy helpu imi addasu fy addysgu os nad oedd rhai disgyblion wedi deall y tasgau cymharu brawddegau (yn fwy na / yn llai na / yn hafal i). Strwythur y Wers: 1. Cyflwyno NYW 2. Cam 1 – Trafod *Cymharu brawddegau (Pwerbwynt)* 3. Cam 2 – Cyflwyno Senario (bachyn – Stori'r Crocodeil yn anghofio ei focs bwyd + cyflwyno'r pyped, Carlo'r Crocodeil) 4. Cam 3 – Gweithgaredd 'Yn fwy neu'n Llai na...?' 5. Cam 4 – Tasgau Gwahaniaethol (Tasgau Ffocws – yn eu llyfrau mathemateg) 6. Cam 5 – Plenari (Pos / Gêm Rhifau)

	Drwy wneud defnydd o bodau i fyny/bodau i lawr, roeddwn yn gallu profi dealltwriaeth y disgyblion yn gyflym i weld a oedd y disgyblion yn deall tasgau'r sesiwn. Er mwyn mynd i'r afael â chynorthwyo'r rhai disgyblion nad oedd wedi rhoi eu bodau i fyny yn ystod y wers, roedd angen imi addasu fy addysgu'n gyflym, felly fe ddefnyddiais byped Carlo'r Crocodeil er mwyn arddangos y symbolau 'yn fwy na > , yn llai na < (ceg ar agor, ceg ar gau) -- elwodd y disgyblion a oedd yn cael trafferthion yma, gyda nhw wedyn yn defnyddio eu dwylo i ail-greu'r symbolau mewn grwpiau bach. Yn ei dro, helpodd hyn iddynt gyflawni'r tasgau heb ddrysu ar y symbolau ac fe wnaed cynnydd. Asesu syml oedd hyn, ond teimlaf, fel y nododd athro'r dosbarth, bod yr asesu 'short, sharp' yn helpu i adfer sefyllfa rhag diriwio o fewn gwers.
Beth rydych chi wedi'i ddysgu?	Er mwyn sicrhau cynnydd gan fy nisgyblion, mae'n hanfodol fy mod â'r meddylfryd i finiogi fy nghrefft a bod gennyf broffesiynoldeb wrth fireinio ar fy addysgeg yn gyson. Mae Asesu ar gyfer dysgu wedi fy helpu er mwyn dehongli dealltwriaeth y dosbarth a gweld a ydynt wedi deall gofynion Nodau ac Amcanion y sesiwn. Teimlaf fod y disgyblion wedi elwa o'r asesu parhaus, "short, sharp" drwy gydol y wers, gan fod modd mynd i'r afael ag unrhyw ofidion neu drafferthion heb iddynt ddirywio.
Beth nesaf?	Wrth imi ddod i adnabod fy nisgyblion ymhellach a'u hasesu'r disgyblion yn ystod PAP1 Bloc 2, fy nod fydd i ddatblygu ymhellach ar fy asesu ar gyfer dysgu mewn ffordd lle byddaf yn gallu asesu dealltwriaeth y dosbarth ar lawr y dosbarth yn weledol gyflym, ac annog ymgysylltiad a chyfraniad gan bob disgybl.

Templed Profiad Proffesiynol 2:	**Ffocws ar Wers lechyd a Lles (Wythnos Gwrth-Fwlio)**
Safon Addysgeg	**Profiadau dysgu cyfunol**
Beth wnaethoch chi a pham?	Yng ngoleuni'r pandemig COVID-19, mae cynllunio trwyadl a hyblygrwydd wedi bod yn hanfodol i addysgwyr, gan fod natur dysgu wedi newid yn aruthrol dros nos. Bellach, mae disgyblion wedi arfer â dysgu o bell ac ar lawr y dosbarth, ac er nad wyf eto wedi dysgu gwers rhithiol gyda'm dosbarth PAP1, yng ngoleuni'r sefyllfa a'r profiad o gynnal sesiwn feicro-ddysgu yn rhithiol, rwyf wedi sicrhau bod y cynlluniau a'r adnoddau sydd gennyf yn barod yn ddigidol, yn hygyrch ac ar gael os nad oedd y wers yn gallu cael ei chynnal ar lawr y dosbarth, h.y. wyneb yn wyneb. Er mai cyflwyno pwerbwynt ar lawr y dosbarth ar gyfer y wers dan sylw a wnes, gan fod pryder arnom y gallai fod yn wers rithiol ar Teams / Google Classroom, teimlais roedd hyn yn gyfle perffaith imi arddangos fy noniau Pwerbwynt ac yn gyfle i'r disgyblion ymgysylltu â'r cynnwys mewn ffordd weledol ysgogol. Gan mai'r wers dan sylw oedd yn dilyn cyfnod byr o salwch (COVID-19), roedd yn bwysig imi ofalu bod lles y dysgwyr wrth wraidd proses creu a chynllunio'r wers. Tynnais ar Bedwar Diben y Cwricwlwm fel man cychwyn i'm cynllunio wrth greu tasg a fyddai'n gallu benthyg ei hun yn rhithiol os bod angen. **<u>Strwythur y wers dan sylw:</u>** **Gwers lechyd a Lles (yn ystod Wythnos Gwrth-Fwlio)** Cam 1: Trafod beth yw bwlio. (Pwerbwynt) Cam 2: Cyflwyno Senario Cam 3: Tasgau Ffocws - Amser Cylch - Cyflwyno Stori (Y Bwli) - Tasg Eirfa (pâr)

	Cam 4: Tasg Ffocws - Llythrennedd (Creu brawddegau) Cam 5: Adfyfyrio / Plenari Cyflwynais nodau ac amcanion y wers i'r dosbarth: • Deall beth yw bwlio a gwrth-fwlio • Trafod geiriau caredig a chas • Dod o hyd i eiriau caredig a geiriau angharedig Yn dilyn arsylwi gwersi athro'r dosbarth, sylwais eu bod yn ymgysylltu llawer â straeon Saesneg ond nid oedd pob disgybl yn ymgysylltu yn yr un modd â straeon Cymraeg. Felly, wrth addysgu gwers Iechyd a Lles, roeddwn am i'r plant ymgysylltu fwy â straeon Cymraeg er mwyn magu eu hyder wrth drafod y thema Gwrth-fwlio, fel paratoad ar gyfer tasg lythrennedd (creu disgrifiad o ffrind caredig). Penderfynais felly cyfansoddi stori gwreiddiol, 'Y Bwli', er mwyn atgyfnerthu'r dysgu a chael pwysleisio geiriau allweddol y wers. Er mwyn sicrhau nad fyddai addysgu ar lawr y dosbarth neu o bell yn effeithio ar natur y wers, defnyddiais ddeunyddiau dysgu a oedd yn cyfoethogi'r dysgu, e.e. cyfres o animeiddiadau i gyfleu fy nhroslais wrth adrodd stori gwreiddiol, 'Y Bwli' ar Bwerbwynt, a bod yna gopiau digidol o'r tasgau / gweithgareddau yn barod i'w hanfon a'u huwchlwytho i Google Classroom/Seesaw os bod angen. Wrth edrych ar stori 'Y Bwli', canolbwyntiom fel dosbarth ar drafod cefndir a chymeriadau'r stori o fewn cyd-destun bywyd go iawn, er mwyn hybu iaith a chyfathrebu'r disgyblion, ond hefyd iddynt fagu empathi ac uniaethu â'r cynnwys mewn modd sensitif. *(Gweler Cynllun Gwers y sesiwn)* Cymerais gyfle i gynnwys amser i siarad a thrafod â'r disgyblion am eu dealltwriaeth a'u dysg i weld faint oeddent yn deall o stori 'Y Bwli', er mwyn imi gynllunio camau nesaf y sesiwn.

	Er mwyn darparu sesiwn ddysgu cyfunol, roedd yn bwysig imi ystyried lles emosiynol a chorfforol y disgyblion, gan fod yn barod i wneud addasiadau priodol pan fo angen (gan osgoi treulio gormod o amser ar y carped, cael y disgyblion i symud o gwmpas y dosbarth, gwahaniaethu cynnil ayb.)
Beth rydych chi wedi'i ddysgu?	Wrth gwestiynu'r dosbarth, mae'n rhaid imi adfyfyrio a ydwyf wedi gwneud digon o waith ymchwil i sicrhau fod lefel yr her yn ddigonol ar gyfer y disgyblion. Mae her ar lawr y dosbarth yn gofyn i ddysgwr ddarganfod 'rhywbeth ychwanegol' a bydd her yn 'sbarduno emosiynau positif' fel hyder a chyffro yn ogystal â theimladau o ofn ac amheuaeth. (Vygotsky, 1978). Mwyheuais y profiad o addysgu'r dosbarth ar lawr y dosbarth, ac er roedd gennyf gynlluniau wrth-gefn er mwyn cyflwyno'r sesiwn yn rhithiol, pwysleisiwyd bwrlwm, gallu a natur y dosbarth goblygiadau a rhwystrau posib a allai godi o addysgu yn y modd hwn; sef problemau diogelu posib yn codi wrth ddefnyddio camerau digidol a ffrydio byw, problemau technoleg na ellir rheoli o adref, anodd rheoli amser sgrin disgyblion wrth eu dysgu o bell, problemau'r rhyngrwyd yn gallu cael effaith andwyol ar gadw rheolaeth ar yr amgylchedd dysgu, ayb.
Beth nesaf?	Er mwyn gwthio'r dysgu ymhellach, gallwn ofyn i'r disgyblion gymryd eu casgliad o ansoddeiriau caredig a chwblhau'r dasg o ysgrifennu disgrifiad o'i 'ffrind caredig' gan ddefnyddio ansoddeiriau, ar ffurf o'u dewis nhw e.e. ar bapur, yn ddigidol, ar ffurf recordio llais/wyneb ac uwchlwytho i'w chyfrifon Seesaw/Google Classroom. Yn ogystal, gall y tasg gael ei gwahaniaethu a'i gwthio ymhellach drwy ei osod ar ffurf tasg ryngweithiol cydamseredig/anghydamseredig, digidol er mwyn i'r disgyblion allu cydweithio i greu fideos ei hun, neu wneud defnydd o Office 365.

Templed Profiad Proffesiynol 3:	**Ffocws ar Wers leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu (Diogelwch y Ffordd)**
Safon Addysgeg	**Cyd-destunau dilys bywyd go iawn**
Beth wnaethoch chi a pham?	Fy nod yn ystod y sesiwn agoriadol yma, gan fod ffocws y sesiwn ar baratoi'r disgyblion â geirfa, er mwyn iddynt ysgrifennu e-bost ar y thema Diogelwch ar y Ffordd, teimlais ei fod yn hollbwysig i ddarparu profiad mewn cyd-destun bywyd go iawn. Wrth imi gychwyn ar fy nghyllunio ac ystyried Diogelwch ar y Ffordd, aeth fy meddwl yn ôl i gyfnod ohonof yn yr ysgol gynradd yn gwrando ar 'Mrs Tufty' yn dod i'r ysgol gyda'i wiwer yn trafod ei negeseuon o fod yn ofalus ar y ffordd. (Firth, 1973). Edrychais ar ddatblygu iaith a llythrennedd y disgyblion mewn gwers ymarferol yn ardal wyllt yr ysgol, ar hynny er mwyn eu sgaffalio ar gyfer creu e-bost ar y thema 'Diogelwch ar y ffordd'. Rhestron gyfres o ferfau gorchmynnol (geiriau -wch) tu fas wrth gyrraedd y groesfan, gyda'r disgyblion hefyd yn cael cyfle i gyfleu'r ystumiau corff o arafu, stopio, edrych ayb, e.e. *arafwch, stopiwch, edrychwch, arhoswch* ayb. Roedd y plant wedi mwynhau cael cyfle i ailadrodd y geiriau yma ar goedd yn yr awyr agored.
Beth rydych chi wedi'i ddysgu?	Erbyn heddiw, gan fod disgyblion yn cofio ac elwa o brofiadau dysgu mewn cyd-destun bywyd go iawn (Llywodraeth Cymru, 2020), wrth gael cyfle i wneud rhywbeth, yn hytrach na chlywed athro yn cyfleu neges, teimlaf fod y penderfyniad o addysgu rhan fwyaf o'r wers tu fas yn yr ardal agored, ger groesfan yr ysgol, yn un effeithiol er mwyn pwysleisio neges y thema, ac atgyrnerthu'r dysgu.

Beth nesaf?	Ymatebodd y disgyblion yn dda i brofiad mewn cyd-destun bywyd go iawn. Wrth holi cwestiynau i'r disgyblion ger y groesfan, gofynnais iddynt beth fydd yn digwydd os na wnewn ni arafu / stopio / edrych, ayb – roedd yn braf gweld ymatebion ymestynnol gan y disgyblion yn rhagfynegi a dychmygu'r hyn a all ddigwydd a pham y gallai rhywbeth ddigwydd. Teimlaf fod y disgyblion wedi elwa o'r profiad yma tu fas, er mwyn atgyfnerthu'r geirfa allweddol. Hoffwn ymestyn y cwestiynu effeithiol yma'n ymhellach, er mwyn ysgogi dysgu'r disgyblion a datblygu ar eu medrau yn ystod fy nghyfnod yn addysgu (PAP1 bloc 2 / PAP2).

Templed Profiad Proffesiynol 4:	**Ffocws ar Wers Ddyniaethau (Hannukah)**
Safon Addysgeg	**Themâu traws-gwricwlaidd**
Beth wnaethoch chi a pham?	Fel rhan o'm profiad PAP1, rwyf wedi cynnal rhai gwersi gyda dosbarth blwyddyn 2 yn canolbwyntio ar ddatblygu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu'r dosbarth yn draws-cwricwlaidd, a'r rheiny'n cydfynd â Fframwaith y Cyfnod Sylfaen (Llywodraeth Cymru, 2015). Codais hyder y plant gan ddatblygu ar eu Sgiliau Llafar (mewn gwers Addysg Grefyddol yn cyflwyno stori'r ŵyl Hanukkah). Dysgodd y disgyblion geirfa a therminoleg newydd, e.e. *Dreidel, Canhwyllbren, Memrwn, Iddewon.* Edrychon ni hefyd ar gyfres o ferfau effeithiol, e.e. **troelli'r** Dreidel, **cynnau'r** canhwyllau, **gosod** y Kippah (am ben rhywun), **goleuo'r** Hanukkiah ayb.

	Cafodd y disgyblion hefyd gyfle i gael dehongli stori'r Hanukkah ar ffurf meim / lluniau llonydd gyda cherddoriaeth Chopin yn ategu lluniau llonydd y disgyblion.
Beth rydych chi wedi'i ddysgu?	Gan fod natur y dosbarth yn un byrlymus, egniol, roedd y disgyblion wedi gwir mwynhau'r cyfle i gael actio a chreu lluniau llonydd i gyfleu stori Hanukkah. Wrth i'r disgyblion ymarfer eu lluniau llonydd yn eu grwpiau, chwaraeais gerddoriaeth Chopin yn y cefndir, gyda rhai disgyblion MATh yn gofyn pwy oedd y gyfansoddwr. Dyma wers lle'r oedd yn braf cael trafod thema Dyniaethau yn drawsgwricwlaidd wrth ddod â'r Celfyddydau Mynegiannol yn rhan o'r wers. Teimlaf fod y disgyblion wedi elwa o'r profiad yma gan eu bod bellach yn gallu adalw geiriau allweddol y wers (e.e. Dreidel, Menorah, Kippah ayb.) wrth ei gysylltu â'u lluniau llonydd/gwaith meim.
Beth nesaf?	Gan fod y disgyblion wedi gwir mwynhau'r profiad o ddysgu am Iddewiaeth a Hanukkah, pe bawn yn gallu ail-ymweld â'r sesiwn yma, byddwn wedi mwynhau cael y cyfle i gysylltu'r thema ymhellach ar draws y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad, wrth edrych ar: • tasg gelf â'r disgyblion yn creu dreidel ei hun. • tasg goginio yn yr ardal wyllt – coginio *latkes* a thoesenni. • tasg Wyddonol yn edrych ar olew a goleuni – mesur olew canhwyllau. • tasg Lythrennedd yn seiliedig ar ddyddiadur disgybl yn dathlu'r Hannukah – gall hyn hefyd cysylltu â Hanes Anne Frank mewn modd sensitif, addas. • Tasgau datrys problemau rhifedd – Hanukkah • Tasg greu animeiddiad (stop-motion) o gynnau'r Menorah i ddatblygu ar Gymhwysedd Digidiol y disgyblion. • prosiect ryngweithiol gyda'r disgyblion yn creu fideo fel grŵp yn cyfleu beth yw dathliad Hanukkah (gan ddefnyddio propiau a gwisgoedd a grewyd gan y disgyblion) ayb.

Rhan 2 – Adfyfyrdod Beirniadol

Fy nhargedau yn dilyn yr aseiniad diwethaf:

	Targed / Target 1	***Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn ...***
Targed / Target 1	*- Diffyg strwythur ar adegau ac o ganlyniad yn tarfu ar lif y darllen.* *- Defnyddia is benawdau er mwyn sicrhau dy fod yn cynnwys pob agwedd sy'n deillio o ofynion yr aseiniad.*	Rwyf wedi canolbwyntio ar osod strwythur clir i'm haseiniad y tro hwn, gan gynnwys is benawdau a threfn systematig i'r Aseiniad Ysgrifenedig (Rhan 2), gan ddilyn fformat ffont a ffurf PCYDDS. Rwyf hefyd wedi glynu'n ffyddlon at dempled y PDP wrth imi echdynnu'r cynnwys perthnasol ar gyfer rhan gyntaf yr aseiniad oddi ar fy Mhrofiadau Proffesiynol ar PebblePad (Rhan 1).
Targed / Target 2	*- Ceisia arall eirio yn hytrach na gor ddibynnu ar ddyfyniadau.*	Teimlaf nad wyf wedi gor ddibynnu ar ddyfyniadau yn ystod y traethawd hwn, wrth imi arall eirio a chrynhoi pwrpas a neges dyfyniadau a chynnwys astudiaethau er mwyn atgyfnerthu fy mhwyntiau.

Cyflwyniad

Fy ffocws ar gyfer Rhan 2 yr aseiniad fydd i edrych ar Asesu ar gyfer Dysgu, fel maes ar gyfer fy natblygiad personol, fel athro dan hyfforddiant.

Mewn byd addysg sydd o hyd yn newid ac esblygu, dengys fod Asesu ffurfiannol ar gyfer Dysgu yn wraidd i gyrhaeddiad disgyblion. Dyma'r broses o geisio a dehongli tystiolaeth i'w ddefnyddio gan ddysgwyr ac addysgwyr, wrth benderfynu ble mae'r dysgwyr wedi cyrraedd ar eu taith ddysgu ar hyn o bryd, ble mae angen iddynt gyrraedd, a'r camau gorau ar sut mae cyrraedd y cam nesaf ar eu taith ddysgu (Black a William, 1998).

Os bod Llywodraeth Cymru, a'n system addysg, gwir am fuddsoddi mewn "rhagoriaeth addysgol" (Llywodraeth Cymru, 2019a), yna dylid codi cyflawniad a chyrhaeddiad ein dysgwyr drwy ddefnyddio asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu, gan awgryma'r dystiolaeth helaeth mai dyma lle y gellir cael y gwir effaith ar gyflawniad dysgwyr (Grŵp Diwygio Asesu, 2002).

Dyma fy rhesymeg felly ar gynnal ymchwiliad beirniadol ar yr agwedd hon, er mwyn imi ddatblygu ar fy addysgu yn y maes hwn, ar gyfer fy nyfodol fel athro.

Trafodaeth feirniadol ar Asesu ar gyfer Dysgu

Yng ngoleuni'r cwricwlwm newydd, *Cwricwlwm i Gymru* (Llywodraeth Cymru, 2019a), nodwyd bod asesu yn wraidd i'r broses ddysgu, a hynny ag Asesu ar gyfer dysgu yn un o'i dibenion pwysicaf. Yn wir, nid dyma'r unig bwrpas, ac felly mae'n bwysig deall y gwahaniaethau rhwng Asesu ar gyfer Dysgu (AagD) ac Asesu o Ddysgu (AoD).

Mae dros hanner canrif wedi bod ers i David Ausubel (1968) gynnig mai'r elfen bwysicaf sy'n dylanwadu ar ddysgu disgyblion yw'r "hyn maent eisoes yn ei wybod", ac y dylai athrawon addasu eu haddysgu a'u hasesu gan ddilyn y gwybodaeth flaenorol yma. (Ausubel, 1968).

Er bod y cysyniad yma'n un teg, nid yw pob disgybl yr un peth. Nid oes 'un ffordd gywir' o addysgu neu asesu.

> "Children are like tiny flowers; they are varied and need care, but each is beautiful alone and glorious when seen in the community of peers" (Froebel, a ddyfynwyd yn *Community Playthings*, 2016: t.62)

Fel y nododd Froebel (2016), gallwn gymharu disgyblion ysgol i flodau'r ardd – maent i gyd yn wahanol ac yn unigryw; maent yn fregus os nad ydym yn eu cefnogi, ac mae angen mwy o ddŵr a sylw ar rai o'i gymharu â'i gilydd.

Er hynny, mewn ystafelloedd dosbarth ledled Cymru, mae'r athro, ar lawr y dosbarth, gan amlaf, yn cyflwyno sesiynau i bawb ar yr un pryd. Ychydig o addasiadau a wneir ar gyfer gwahaniaethau unigol plant (Rosenshine, 2012).

Credir yn aml mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cyflawniad a chyrhaeddiad uchel gan ddisgyblion, a hynny wrth gynnig dull systematig o ddysgu gyda phwyslais ar:

> 'Ddysgu drwy gymryd camau bach; chwilio am ddealltwriaeth myfyrwyr; sicrhau cyfranogiad gweithredol a chyrhaeddiad gan bob disgybl...' (Rosenshine, 2012, t.12)

Serch hynny, dengys dystiolaeth mae drwy asesu effeithiol y daw cyflawniad a chyrhaeddiad disgybl. Dyma pam felly y mae'r cysyniad o Asesu Ffurfiannol, neu Asesu ar gyfer Dysgu, yn hollbwysig i gyflawniad a chyrhaeddiad disgybl. (Llywodraeth Cymru, 2020)

Noda Natriello (1987) a Crooks (1988) fod Asesu ar gyfer Dysgu'n broses barhaus, ble, yn ystod gwers, y bydd y dysgwr a'r athro'n asesu'r cyrhaeddiad a chynnydd ei hun, gan addasu, rhoi adborth a chynllunio ar gyfer camau nesaf y dysgu. Mae'r union gysyniad yn cael ei efelychu yn chwe egwyddor asesu a argymhellir yng Nghwricwlwm i Gymru (2019c), ble nodwyd mai asesu:

> "yn broses barhaus sy'n rhan annatod o ddysgu ac addysgu"
> (Llywodraeth Cymru, 2019c)

Yn ogystal, dros y trideg mlynedd diwethaf, dengys dystiolaeth y gall asesu ffurfiannol ac asesu ar gyfer dysgu gael gwir effaith ar ddysgu disgyblion, gydag astudiaethau gan Black a William (1998, et al., 2009) a Kingston a Nash (2011) hefyd yn casglu y gall asesu ffurfiannol aml a phriodol gynyddu dysg a chyflawniad disgyblion.

Serch hynny, yr hyn sy'n gyffredin yng nghasgliadau'r astudiaethau uchod, ac yn astudiaethau eraill megis Kluger a DeNisi (1996), yw nad yw pob math o adborth ac asesu yn gweithio er lles y disgybl.

Honna Black (et al., 1998) y canolbwyntia'r term 'Asesu ar gyfer Dysgu', ar 'fwriad yr asesu', yn hytrach na'r 'weithred o asesu'. Sonnir bod AagD yn awgrymu bod yr athro â'r nod o gasglu gwybodaeth a chyflawni rhywbeth, a elwir hefyd yn 'fwriad ffurfiannol' (Wiliam, 2016), yn gymharol ag 'Asesu o Ddysgu', a elwir hefyd yn 'weithred ffurfiannol'.

Datgenir Black a William hefyd (1998; 2016) nad yw 'bwriad ffurfiannol' yn elwa disgyblion cryn lawer, ond yn hytrach, y *weithred* o asesu sy'n gwneud gwahaniaeth i gyflawniad a chyrhaeddiad disgybl. Honna'r ddau y gall Asesu ar gyfer Dysgu parhaus drawsnewid dysgu disgyblion, gan wir gynorthwyo eu cyflawniad a chau'r bwlch rhwng cyflawnwyr academaidd isel ac uchel, dim ond os yw athrawon yn "cwestiynu ac asesu eu disgyblion yn barhaus" (ibid, 1998; 2016), fel dosbarth ac yn unigol, gan arsylwi gwaith annibynnol a chynnal sgwrs broffesiynol.

Bydd mabwysiadu'r ffordd yma o addysgu yn fy ngalluogi i wybod; a oes angen i'm disgyblion ail-ymweld â dysgu blaenorol, oes angen imi addasu neu addysgu testunau neu weithgareddau mewn ffordd arall; sut fyddaf yn gallu mynd i'r afael â dryswch neu gamgymeriadau gan ddisgyblion, a chynllunio gwersi'r dyfodol yn fwy effeithiol wrth imi ddysgu o gamgymeriadau neu addasiadau'r gorffennol (Wiliam, 2016).

Does dim amheuaeth fod y termau 'asesu ar gyfer dysgu' ac 'asesu ffurfiannol' yn peri dryswch i lawer yn ein byd addysg. Ar un ochr y geiniog gwelwn rhai sy'n honni mai 'asesiad ffurfiannol' yw proses sy'n cyfeirio at offeryn neu adnodd (e.e. Lysaght ac O'Leary, 2017), megis prawf diagnostig, asesiad dros dro neu brawf tymhorol. Nid yw'n syndod, felly, bod y farn hon am asesu ffurfiannol yn gyffredin ymhlith byrddau arholi a chyhoeddwyr profion (Estyn, 2008 a Llywodraeth Cymru, 2014), gan fod modd darparu'r asesiadau yma er mwyn ffurfio data defnyddiol ar gyfer arolygu a thracio cynnydd a chyrhaeddiad ysgolion ar ddiwedd blwyddyn academaidd.

Ar ochr arall y geiniog, fel y cesglir gan William (2016), bydd asesiadau ffurfiannol o'r math hwn, ar ffurf adnodd, teclyn neu brawf i asesu dealltwriaeth a chyrhaeddiad, er eu bod yn ddefnyddiol ar gyfer ffurfio 'adroddiadau a data ysgolion', drwy gasglu canlyniadau sydd â gwerth 'ddiagnostig' (Lysaght ac O'Leary, 2017), bydd y rhain dim ond yn asesu'r disgyblion ar ddiwedd unedau neu gyfnodau tymhorol. Ni fydd y asesiadau yma'n asesu gwir ddealltwriaeth y disgyblion ar lawr y dosbarth yn barhaus, fel yr argymhellir yng Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru 2022 (2020).

Cydnabyddir gan Black (et al., 2002) os yw athro yn addysgu, ac yn honni eu bod yn asesu ar gyfer dysgu, neu'n asesu'n ffurfiannol, wrth osod data i daenlen; neu ysgrifennu adroddiadau o gynnydd, nid yw hyn yn asesu ar gyfer dysgu parhaus sydd am wneud gwahaniaeth i gyrhaeddiad a chyflawniad y disgybl ar lawr y dosbarth:

> Such assessment becomes [effective] 'formative assessment' when the evidence is actually used to adapt the teaching work to meet learning needs. (Black et al., 2002)

Yr effaith fwyaf rwyf wedi gweld yn ystod fy nghyfnod byr fel athro dan hyfforddiant, yn arsylwi arfer dda ac asesu ar gyfer dysgu sy'n fanteisiol i gyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion, yw'r asesu ffurfiannol miniog a pharhaus. Bathwyd un athro yn fy Ysgol PAP1 y derm, *'short, sharp assessing'* (Athro X yn Ysgol PAP1), ble na fyddai'r athro yn gadael i'r disgyblion adael yr ystafell ddosbarth, cyn sicrhau ei bod wedi defnyddio tystiolaeth o gyflawniad ei disgyblion, a gafwyd drwy eu hasesu'n barhaus yn ystod y wers, er mwyn adfyfyrio ac addasu ar ei arfer a'i haddysgu ei hun, fel paratoad ar gyfer y sesiwn nesaf. Cytuna'r astudiaethau a drafodwyd eisoes y byddwn, felly, fel athrawon, o hyd yn 'dal i fyny' â chyflawniad a chyrhaeddiad ein disgyblion os nawn ni addasu ein haddysgu o wers i wers a dysgu o dystiolaeth ein hasesu.

Hoffwn fathu'r dull hwn ar gyfer fy addysgu yn y dyfodol, er mwyn hybu ymgysylltiad fy nisgyblion, asesu eu dealltwriaeth yn barhaus, a sicrhau cynnydd gan bob dysgwr, heb iddynt adael wers yn teimlo nad ydynt wedi dysgu neu ddeall tasg neu weithgaredd.

Fel y nodwyd ar ddechrau'r aseiniad hwn, gallwn rhannu'r broses o Asesu ar gyfer Dysgu i dri rhan, sef penderfynu

1. Ble mae'r dysgwyr wedi cyrraedd ar eu taith ddysgu ar hyn o bryd
2. Ble mae angen iddynt gyrraedd
3. Camau gorau ar sut mae cyrraedd y cam nesaf ar eu taith ddysgu (Black a Wiliam, 1998)

Noda William (2016), er mwyn mynd i'r afael ag asesu ffurfiannol sy'n gwneud gwahaniaeth, mae'n bwysig i'r athro, dysgwr a'u cyfoedion bod yn rhan o'r broses asesu. Er mwyn penderfynu ble mae'r dysgwyr wedi cyrraedd, ble mae angen iddynt gyrraedd a'r camau gorau i symud y dysgu ymlaen, un enghraifft fydd i rhannu ac egluro'r nodau ac amcanion dysgu, yna gynllunio tasgau a gweithgareddau sy'n ennyn tystiolaeth o ddysgu'r disgyblion, ac yna darparu adborth sy'n symud dysg y disgyblion ymlaen (ibid, 2016).

Yn gydradd, cesglir Swift (et al., 1988) a Perrenoud (1998) bod asesu effeithiol yn cwmpasu cwestiynu effeithiol, darparu adborth, hunan-asesu ac asesu cyfoedion, drwy ysgogi disgyblion i ddysgu'n annibynnol ac o'i gilydd.

Dyma gysyniadau sy'n cael eu hefelychu gan Bedwar Diben y Cwricwlwm, ble'r ydym am i'n disgyblion cael eu hysgogi i fod gyfranwyr mentrus, a dysgwyr uchelgeisiol sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes (Donaldson, 2015).

Law yn llaw â hyn, noda ganllawiau asesu Llywodraeth Cymru (2019b) bod angen i ddisgyblion gymryd rhan weithredol yn y prosesau asesu er mwyn sicrhau gwir gyflawniad a chyrhaeddiad ar lawr yr ystafell ddosbarth:

> "Rôl dysgwyr yw cyfrannu at y broses ddysgu a chymryd rhan ynddi"
> (Llywodraeth Cymru, 2019b)

Mae hunan-asesu, felly, yn hollbwysig i ddatblygiad disgybl, a hynny dim ond os yw'n chwarae rhan o ysgogi disgyblion i gymryd cyfrifoldeb yn eu dysgu eu hun. Yn wir, daw hunan-asesu â nifer o brosesau eraill, megis datblygiad ar wybodaeth a rheolaeth metawybyddol disgyblion, yn ogystal â datblygu ar eu rheolaeth emosiynol wrth ymateb i dasg neu broblem.

Noda Flavell (1979) a Brown (1987) bod datblygu gwybodaeth metawybyddol disgyblion yw ble mae'r disgybl yn cymryd cyfrifoldeb ar eu galluoedd gwybyddol a'u gwybodaeth. Byddant yn medru gwneud hyn drwy weithredu strategaethau i gynorthwyo â'u dealltwriaeth a'u gallu (e.e. gyda thasg sy'n gofyn am gofio sgript neu ddarn o farddoniaeth, byddai'r disgybl yn gallu torri'r darn yn ddarnau bach er mwyn ei gofio) (Flavell, 1979: Brown, 1987).

Yn yr un modd, mae datblygu ar reolaeth metawybyddol yn disgrifio sut mae dysgwyr yn monitro a rheoli eu prosesau gwybyddol (Flavell, 1979; Nelson a Narens, 1990). Er enghraifft, byddai'r disgybl yn cymryd cyfrifoldeb am ei ddysgu drwy asesu'r sefyllfa neu'r dasg, ac yna'n sylwi nad yw strategaeth y maent yn ei defnyddio i drechu problem yn gweithio. Wedyn, bydd yn addasu gan roi cynnig ar ddull arall (Nelson a Narens, 1990).

Wrth ystyried metawybyddiaeth fel rhan o broses hunan-asesu disgybl, byddai'n bwysig hefyd ystyried sut mae rheoli eu hymatebion emosiynol yn wraidd i'r broses:

> "levels of stress and anxiety among pupils are rising, highlighting how important it is that schools … support children and young people to develop the resilience and skills needed to deal with stress and anxiety." (Cynulliad Cymru, 2018, t.20)

Yn wir, mae dysgu'n anodd ac mae'r dygnwch a gwydnwch y mae'r disgyblion yn eu datblygu wrth wneud camgymeriadau a methu'n rhan annatod o ddysgwr effeithiol. Mae'n hollbwysig felly bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu'r gwydnwch a'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio â straen a phryder.

Yn ngoleuni Canllawiau Cwricwlwm i Gymru (2020) a strategaethau gan arbenigwyr ac astudiaethau a drafodwyd eisoes, er mwyn datblygu yn y maes hwn, hoffwn dreialu rhai o'r strategaethau addysgeg isod, er mwyn meithrin gallu fy nisgyblion i hunan-asesu'n effeithiol ar lawr y dosbarth:

- Gweithio gyda'm disgyblion er mwyn iddynt greu nodau ac amcanion unigol a rhoi ffocws ar adfyfyrio (AagD munud-wrth-funud / targedau dyddiol / amcanion SMART wythnosol / misol ayb).
- Cyflwyno a nodi Meini Prawf Llwyddiant yn glir i bob disgybl.
- Addysgu digyblion ar sut i ddehongli a defnyddio tystiolaeth asesu.

- Creu naws gefnogol o fewn yr ystafell ddosbarth (nad sy'n or-gystadleuol), lle nad yw disgyblion yn ofni gwneud camgymeriadau, drwy fod yn agored yn dangos sut y gall athro wneud camgymeriadau hefyd.
- Rhoi amser i'm disgyblion cyfle i adolygu eu gwaith yn dilyn adborth > rhoi cyfle iddynt uwchsgilio ac uwchlefelu eu gwaith er mwyn iddynt fynd i'r afael â'u targedau'n barhaus gan wthio eu cyflawniad.
- Datblygu sgiliau asesu drwy asesu cyfoedion.
- Darparu adborth clir a phenodol sy'n helpu fy nisgyblion i wella ar gyfer eu tasg neu aseiniad nesaf, yn hytrach na chanolbwyntio ar feysydd i'w gwella na fyddant yn ail-ymweld yn y dyfodol agos.
  (Llywodraeth Cymru, 2020; William, 2016; Black, 2002;
  Nelson a Narens, 1990; Flavell, 1979)

Yn law yn llaw â hunan-asesu yw asesu cyfoedion. Nodwyd yn chwe egwyddor asesu a argymhellir yng Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020), bod pob dysgwr

> "wrth wraidd y broses asesu a dylen nhw gael eu cefnogi i gymryd rhan weithredol yn y broses ddysgu." (Llywodraeth Cymru, 2020, t.33)

Mae ysgogi dysgwyr i gymryd rhan weithredol yn y broses ddysgu ac asesu mynd ymhellach nag asesu cyfoedion yn unig. Noda William (2016) bod mentora a thiwtora cyfoedion, ymgysylltu a chydweithio rhwng disgyblion, a chyda rheiny'n chefnogi ei gilydd fel dysgwyr yn hanfodol ar gyfer eu cynnydd, cyflawniad a lles ar lawr y dosbarth.

Geiria Ganllawiau Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru, 2020) eu hegwyddorion ar gyfer asesu fel ymdrech tîm, gyda'r dysgwyr, addysgwyr, rhieni, gofalwyr a'r ysgol ei hun i gyda yn chwarael rôl yn natblygiad lles a phroses dysgu'r disgybl. Yng ngoleuni hyn, mae darparu adborth effeithiol yn hollbwysig i'r broses asesu er mwyn cefnogi'r disgybl er mwyn iddynt symud ymlaen ar ei taith ddysgu.

Atega Wiliam (2016) barnau Swaffield (2011) a Gardner (2012) ar effeithiolrwydd rhoi adborth, wrth iddynt ddatgan nad yw'r rhan fwyaf o'r adborth sy'n cael eu darparu yn dilyn asesiad yn gallu cael eu hystyried fel arfer dda. Gallwn hyd yn oed osod yr union feirniadaeth ar yr ysgolion sy'n cyflawni uchaf, lle rhoddir sylwadau yn lle graddau a marciau, gan nad yw o hyd yn darparu adborth pwrpasol sydd am wneud gwir gwahaniaeth i'r disgybl ei hun.

Mae'r dull hwn, a ddilynir gan y rhan helaeth o ysgolion, fel arfer yn ystyried yr hyn a oedd o'i le ar yr aseiniad a farciwyd, a chan fod ysgolion yn gaeth i amser, anaml y byddai'r disgybl yn ail-ymweld â'r math hwn o dasg neu aseiniad yn y dyfodol agos.

Felly, er mor ymgysylltiol yw'r adborth, anaml y bydd yr adborth a roddir yn nodi'r meysydd i'w gwella y mae angen i'r disgybl fynd i'r afael â hwy ar gyfer yr aseiniad nesaf. Mae'r dull adfyfyriol, ond rhagweithiol, fel yr honna Wiliam (2016), yn un anodd i'w gyflawni, ond datgenir mai dyma'r ffordd orau o asesu a rhoi adborth er mwyn gwneud gwahaniaeth i ddisgyblion.

Does dim amheuaeth felly, wrth i athrawon ac addysgwyr fabwysiadu dulliau asesu sy'n cefnogi dysgwyr yn barhaus, o ddydd i ddydd, gan rannu adborth rhagweithiol ar sut y gallant ddatblygu ar gyfer eu tasgau nesaf, bydd eu disgyblion yn medru elwa o gyfleoedd parhaus i hyrwyddo eu sgiliau, rheolaeth, annibyniaeth a'u lles personol.

Yng ngoleuni'r canllawiau a chasgliadau a ddaw o'r astudiaethau helaeth a drafodwyd eisoes, er mwyn imi baratoi fy nisgyblion ar gyfer Asesu ar gyfer Dysgu, hoffwn sicrhau fod mod yn

- Esbonio pam a sut mae asesu'n digwydd.
- Gofyn y disgyblion i egluro, esbonio ac ymhelaethu.
- Cynnal sgyrsiau un yr un gyda'r disgyblion.
- Ymateb yn weithredol drwy fod yn barod i addasu fy addysgeg yn dilyn asesu dealltwriaeth y disgyblion/dosbarth.
- Cychwyn â man newidiadau gan osgoi gorlwytho strategaethau di-ri mewn un tro
- Cynllunio gweithgareddau a fydd yn archwilio dealltwriaeth y disgyblion megis cwisiau, tasgau adfyfyriol, tasgau munud i drafod a chasglu syniadau.
- Caniatáu mwy o amser i'r disgyblion gael meddwl.
- Adolygu cynnydd dysgu'r disgyblion, gan eu cyfleu iddynt.
- Gofyn cwestiynau adfyfyriol er mwyn annog annibyniaeth gan y disgyblion er mwyn iddynt gymryd cyfrifoldeb ar eu dysgu eu hun.

(Daw rhai syniadau am strategaethau asesu posib o *Ganllawiau Asesu Cwricwlwm i Gymru*, Llywodraeth Cymru, 2020, t.229-232)

Casgliad

Crybwylla'r astudiaethau a drafodwyd uchod rhaglenni astudio hirfaeth, sydd yn rhannu eu canfyddiadau ar roi adborth ar asesiadau i ddysgwyr, ac ar asesu ar gyfer dysgu mewn ysgolion ac yn y gweithle.

Gallwn gasglu o'r astudiaethau yma, er bod eu cynnwys yn trafod meysydd dysgu gwahanol, oedrannau dysgu gwahanol a lleoliadau dysgu gwahanol, beth sy'n arwyddocaol yw bod ganddynt i gyd canlyniadau tebyg wrth drafod asesu.

Daeth yn amlwg wrth astudio'r faes hon fod asesu effeithiol yn wraidd i lwyddiant a chyrhaeddiad disgybl mewn cyfnod sydd o hyd yn gorfod newid ac esblygu. Noda El Mahgiub (2019), mewn cynhadledd TED, ein bod yn byw mewn byd sydd o yn moderneiddio'n dechnolegol yn ddyddiol, ble mae disgyblion ein dyfodol yn

> "dysgu a pharatoi ar gyfer swyddi nad sydd eisoes yn bodoli eto"
> (El Mahgiub yn TedxTalks, 2019),

a sut mae asesu effeithiol a strategaethau yn gallu helpu pobl i lwyddo mewn oes o aflonyddwch.

Yn sgil hynny, er mwyn imi ddatblygu ar fy addysgu mewn oes sy'n newid, hoffwn fabwysiadu rhai o'r strategaethau asesu ffurfiannol ac asesu ar gyfer dysgu a nodwyd eisoes, a'u treialu mewn profiadau addysgu'r dyfodol, yn dilyn casgliadau positif yr astudiaethau a drafodwyd yn ystod yr aseiniad hwn.

Yn dilyn casgliadau gan y Grŵp Diwygio Asesu (2002), yr Athro Dylan William (2011, 2016) ac yng ngoleuni'r egwyddorion allweddol Asesu a argymhellir yng Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru (2020),



[Ffig. 1 – Delwedd o *Egwyddorion Hanfodol Asesu*, yn *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*, LIC, 2020, t.228]

fy nghamau nesaf fydd i dreialu strategaethau ble mae modd asesu dealltwriaeth y dosbarth yn barhas ac yn weledol o fewn gwers.

Fy nod fydd i barhau i dreialu ac arbrofi gyda thechnegau o ddefnyddio offer sydd yn efelychu goleuadau traffig, megis cwpanau lliwiau traffig (William, 2011), bodau fyny/bodau lawr (Prifysgol Huddersfield, 2016), ffyn lolipop (Black et al., 2004) neu debyg, er mwyn asesu dealltwriaeth y dosbarth ar lawr y dosbarth yn weledol gyfylym, ac annog ymgysyllitad a chyfraniad ganddynt.

Byddai defnyddio technegau yma hefyd yn rhoi cyfle imi wthio dysgu annibynnol gan fy nisgyblion, ac osgoi'r hen draddodiad o 'ddwylo i fyny' diangen (ibid, 2004).

Yn wir, bydd mabwysiadu technegau asesu tebyg yn sicrhau fy mod yn cadw'n driw i Bedwar Diben y Cwricwlwm Newydd (Llywodraeth Cymru, 2020), wrth annog y disgyblion i ganolbwyntio a chyfrannu'n mentrus, gan barchu offer y dosbarth fel dinasyddion gwybodus, a hynny gan atgyfnerthu ar eu dysgu a'u cyflwyniad, yn ogystal â'u hysgogi i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol nad sy'n poeni am fethu neu wneud camgymeriadau ar lawr y dosbarth.

Rhestr Gyfeirnodi

Ausubel, D. P. (1968). *Educational psychology: A cognitive view.* Holt, Rinehart & Winston: Efrog Newydd.

Black, P. and Wiliam, D. (1998). *Inside the Black Box: Raising Standards through Classroom Assessment*. London: School of Education, King's College.

Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B., & Wiliam, D. (2002) Working inside the black box: assessment for learning in the classroom. Llundain: King's College London, Department of Education and Professional Studies.

Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B., a Wiliam, D. (2004). Working inside the black box: assessment for learning in the classroom. 86(1). Llundain: SAGE Publications Ltd, t.7-21

Black, P. a Wiliam, D. (2009). Developing the theory of formative assessment. *Educational Assessment Evaluation and Accountability, 21,* t.4-31

Brown, A. L. (1987). "Metacognition, executive control, self-regulation and other more mysterious mechanisms" ar gael yn F. E. Weinert, & R. H. Kluwe (Ed.), *Metacognition, motivation and understanding* (t. 65–116). Hillsdale, New Jersey: Erlbaum.

Community Playthings. (2016) *Keilhau: Froebel's Valley of Education.* Lloegr: Community Playthings. t.60-63.

Crooks, T. J. (1988). The impact of classroom evaluation practices on students. *Review of Educational Research, 58,* t. 460-481.

Cynulliad Cymru, (2018). *Mind over matter: A report on the step change needed in emotional and mental health support for children and young people in Wales.* Caerdydd: Cynulliad Cymru.

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Estyn, (2008). Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion - Mawrth 2008. Caerdydd: Estyn. Ar gael ar: https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-07/Cau%2527r%2520bwlch%2520rhwng%2520cyrhaeddiad%2520bechgyn%2520a%2520merched%2520mewn%2520ysgolion%2520-%2520Mawrth%25202008.pdf [Cyrchwyd 19 Rhagfyr 2021]

Firth, D.E. (1973) The Road Safety Aspects of the Tufty Club. Department of the Environment Report. TRRL, Crowthorne.

Flavell, J. H. (1979). Metacognition and cognitive monitoring: A new area of cognitive–developmental inquiry. *American Psychologist*, 34, t.906–911.

Gardner, J. (2012). Assessment and Learning (2nd Edn). Llundain: SAGE Publications Ltd.
